Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Wrexham Glyndŵr University

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr a gynhaliwyd **ddydd Gwener, 6 Mai 2022** am 9.00am yn Ystafell B103, Prifysgol Glyndŵr, Plas Coch, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam LL11 2AW.

**Presennol**

Jim Barclay
Paul Barlow
Yr Athro Martin Chambers
Dr Leigh Griffin (Cadeirydd)
Yr Athro Maria Hinfelaar
Claire Homard
Celia Jenkins
Sally Lambah
Diane McCarthy
Judy Owen
Amy Rowley *(hyd at ac yn cynnwys eitem 21.77)*
David Sprake
Richard Thomas
Maureen Wain

**Swyddogion:**

Val Butterworth *(Clerc y Bwrdd)*
Yr Athro Richard Day
David Elcock *(Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid)*
Pete Gibbs *(Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol)*
Yr Athro Claire Taylor *(Dirprwy Is-Ganghellor)*
James Dawson *(Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr) [Eitemau 21.80 a 21.90 yn unig]*

**Ymddiheuriadau:**

Colin Heron
Yr Athro Sandra Jowett
Lauren Hole
Dr Aulay Mackenzie
Paul McGrady
Lynda Powell *(Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau)*
Askar Sheibani
David Subacchi

| | | |
|---|---|---|
| **21.70** | **Adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar ystyriaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol i roi'r teitl Athro Datblygu Strategol i Dr Aulay Mackenzie yn unol â Gweithdrefn Achosion Arbennig y Canllawiau Athrawol a Darllenyddiaeth.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Is-gadeirydd y Bwrdd yr adroddiad a thynnu sylw at y broses gadarn a gyflawnwyd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad a llywodraethu Dr Mackenzie. | |
| **21.71** | **Strategaeth Ryngwladol** | |
| | Cyflwynodd y Pennaeth Rhyngwladol gyflwyniad ar y Strategaeth Ryngwladol.<br><br>Roedd y cyflwyniad yn tynnu sylw at swyddogaeth bwysig y Strategaeth Ryngwladol yn natblygiad y Brifysgol o ran cynyddu a chydnabod gwerth myfyrwyr rhyngwladol, | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cynyddu incwm menter a chynyddu nifer y myfyrwyr ar leoliadau gwaith. Roedd Addysg Drawswladol, a reolir gan y Swyddfa Bartneriaethau, a recriwtio myfyrwyr, a reolir gan y Swyddfa Ryngwladol, wedi gweld twf yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda'r diwethaf wedi cael ei gynorthwyo trwy fuddsoddi mewn tîm penodol, cyflwyno'r fisa llwybr graddio, penodi uwch asiant yn India ac ymateb i'r farchnad yn effeithiol.<br><br>Tynnwyd sylw at y Dangosyddion Perfformiad Allweddol rhyngwladol a'r nodau blaenoriaeth, gyda'r olaf yn cynnwys arallgyfeirio mewn marchnadoedd cynaliadwy fel Nigeria a Ghana, gan warchod trwydded UKVI y Brifysgol a gweithio ag asiantau recriwtio dibynadwy sy'n hybu'r Brifysgol yn effeithiol ac yn anfon myfyrwyr ansawdd uchel sydd wedi'u paratoi'n dda.<br><br>Elfen arall yn y Strategaeth Ryngwladol oedd symudedd myfyrwyr a staff, gyda'r cynlluniau yn eu dyddiadau cynnar. Nodwyd tair ffrwd gyllido i gefnogi'r elfen hon: Cymru Fyd-eang Darganfod, Cynllun Turing a Taith, a disgrifiwyd eu prif noweddion. Roedd cynlluniau cyfnewid i staff a myfyrwyr, lleoliadau gwaith i fyfyrwyr dramor a gweithgareddau symudedd eraill â phartneriaid sy'n bodoli eisoes a phartneriaid newydd yn cael eu harchwilio hefyd. Y nod yw cynnwys symudedd yn y cwricwlwm ac i'r Swyddfa Ryngwladol barhau i weithio'n agos â'r adran llesiant a chymorth i fyfyrwyr, yr adran gyllid a'r adran academaidd ar hyn.<br><br>Pwysleiswyd pwysigrwydd adolygu pob rhan o daith derbyn myfyriwr i'r brifysgol i sicrhau ei fod yn parhau'n atyniadol ac yn gywir. Hefyd dylai myfyrwyr newydd a'r rhai sy'n dychwelyd dderbyn profiad cynefino ystyrlon a chefnogol wrth ddechrau eu hastudiaethau ar y campws; a phenodwyd Swyddog Ymgysylltu Rhyngwladol i ganolbwyntio ar ymgysylltu myfyrwyr, a fydd yn gweithio'n agos â'r Cyfadrannau a'r adran gymorth.<br><br>Croesawodd y Bwrdd y wybodaeth a gyflwynwyd a diolchodd i'r Pennaeth Rhyngwladol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R cyflwyniad a'r Strategaeth Ryngwladol. | |
| **21.72** | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |
| | Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cefnogaeth yn ystod ei gyfnod cynefino gan nodi bod cyfarfodydd unigol â'r holl lywodraethwyr wrthi'n cael eu cynnal ar hyn o bryd.<br><br>Roedd y Bwrdd yn dymuno cael cofnodi eu llongyfarchiadau i Lauren Hole ac Amy Rowley ar eu hetholiad fel Llywydd ac Is-lywydd yr Undeb Myfyrwyr ar gyfer 2022/23.<br><br>Llongyfarchwyd yr Athro Richard Day hefyd ar gael ei dderbyn yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru. | |
| **21.73** | **Datgan buddiannau** | |
| | Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau ynghylch unrhyw eitemau ar yr agenda. | |
| **21.74** | **Cofnodion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2022.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>Bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir y cyfarfod. | |

| | | |
|---|---|---|
| **21.75** | **Materion yn codi** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.76** | **Adroddiad yr Is-Ganghellor** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Rhoddodd yr Is-Ganghellor ddiweddariad ar ddatblygiad diweddar yn y Brifysgol ac yn y sector. Nid oedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi cyhoeddi ei lythyr Adolygiad Risgiau Sefydliadol hyd yma, a disgwylir am adborth gan CCAUC ynghylch ymateb y Brifysgol ddiwedd fis Mawrth i'w gais am wybodaeth ynghylch tri mater. Roedd y Cadeirydd a'r Is-Ganghellor yn mynd i gyfarfod Cadeirydd y Cyngor a Phrif Weithredwr CCAUC ar 9 Mehefin. Byddai'r Is-Ganghellor yn cyfarfod beirniaid y cais Dinas Diwylliant ar 11 Mai pan fyddai'r Is-Ganghellor a'r beirniaid yn ymweld â stadiwm y Cae Ras ar ddiwedd y diwrnod. Byddai canlyniad y broses Dinas Diwylliant yn cael ei gyhoeddi fel rhan o ddathliadau Jiwbilî Platinwm y Frenhines.<br><br>O ran datblygiadau'r sector adroddodd bod Bil Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ar gam 2, y cam diwygiadau, yn y broses ddeddfwriaeth a fyddai'n cael ei gwblhau ymhen yr wythnosau nesaf. Rhagwelwyd y byddai cam 3 ar gyfer rhagor o ddiwygiadau yn cael ei gwblhau mewn cyfnod byr a rhagwelir pleidleisio ar basio'r Bil ai peidio ym mis Mehefin.<br><br>Yn achos datblygiadau traws ffiniol byddai'r cap cyfredol ar Ffioedd Dysgu yn Lloegr yn parhau ar £9,250 y flwyddyn, gyda chwtogiad yn y cyfraddau llog a gostwng y trothwyon ad-dalu ar gyfer graddedigion y dyfodol. Mae'r cap ar ffioedd dysgu yng Nghymru yn parhau ar £9,000 er bod prifysgolion Cymru'n lobïo i'r ffi gael ei gynyddu i'r un lefel ag a godir yn Lloegr. Cynhaliwyd amryw o ymgynghoriadau yn y sector gan y Swyddfa Fyfyrwyr, gydag un ohonynt am newid disgrifiad myfyrwyr aeddfed o 21 oed i 25 oed. Petai hyn yn cael ei fabwysiadu byddai'n effeithio ar Brifysgolion Cymru p'un ai yw'r dosbarthiad oedran yn cael ei fabwysiadu yng Nghymru ai peidio.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad yr Is-Ganghellor. | |
| **21.77** | **Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr ar gyfer mis Ebrill 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnwyd sylw at y pwyntiau allweddol yn yr adroddiad ysgrifenedig, yn cynnwys y cynnydd o ran o'u hymgyrchoedd a'u gweithdai wedi'u cyllido, y nifer a gymrodd ran yn yr etholiad sabothol a'r angen i gynnal etholiadau i lenwi swyddi swyddogion rhan amser yn nhymor yr Hydref ar gyfer y swyddi heb eu llenwi. Roedd yr Undeb Myfyrwyr hefyd yn bwriadu gwella ymgysylltu myfyrwyr yn y flwyddyn academaidd nesaf a byddai'n recriwtio Cadeirydd newydd y Cyngor Myfyrwyr yn lle Amy Rowley, yn dilyn ei hethol yn Is-lywydd.<br><br>Pwysleisiodd y Dirprwy Is-Ganghellor bwysigrwydd ymgysylltu da â myfyrwyr a byddai'r Brifysgol yn gweithio'n agos â'r Undeb Myfyrwyr i wella ymgysylltu a'i chefnogi wrth recriwtio i'r rolau swyddogion rhan amser gwag.<br><br>Penodwyd Katy Little fel y Prif Weithredwr newydd o fis Gorffennaf 2022. Penodwyd Cydlynydd Cyfleoedd i Fyfyrwyr a Chydlynydd Prosiect Aelodaeth hefyd fel aelodau staff parhaol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd yr Undeb Myfyrwyr wedi'i siomi gan y gynrychiolaeth isel o sefydliadau llai a sefydliadau Gogledd Cymru yng nghynhadledd ddiweddar NUS Cymru a byddai'n trafod hyn ag aelodau'r Undeb Myfyrwyr newydd eu hethol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.78** | **Adroddiad Rheolaeth Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Yr adroddiad Rheolaeth Ariannol hyd at 31 Mawrth 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad a thynnu sylw at berfformiad y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'r rhagfynegiad ar gyfer y flwyddyn lawn yn ogystal â nodweddion allweddol eraill yn yr adroddiad.<br><br>Ar hyn o bryd mae'r rhagfynegiad yn £1,560k yn groes i'r gyllideb, gan roi diffyg cyffredinol o £151k a oedd yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r rhagfynegiad ym mis Chwefror. Rhagfynegir y bydd gwarged y grŵp yn ei gyfanrwydd yn £6,691K gan ystyried yr elw o waredu tir sydd bellach yn cynnwys gwerthu Stadiwm y Cae Ras, gyda'r gwerthiant ar fin cael ei gwblhau. Ni chynhwyswyd y cyfleuster benthyca gan fanc Lloyds, gan nad yw wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd eto a byddai'n cael ei gyflwyno yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf. Mae'r cydymffurfio â chyfamodau yn gadarnhaol, ynghyd â'r llif arian a'r hylifedd.<br><br>Roedd perfformiad Pentref Myfyrwyr Wrecsam wedi bod yn gadarnhaol gyda chyfradd meddiant uwch na'r disgwyl ar 79% a disgwylir meddiant llawn yn 2022/23 yn deillio o'r cynnydd yn nifer y myfyrwyr yn sgîl y cytundeb Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Roedd yn annhebygol y byddai'r dyraniad llawn credydau rhan amser yn cael eu cyflawni. Bu lleihad yn yr incwm cydweithredu oherwydd cyfnod clo llym yn Tseina wedi effeithio ar recriwtio myfyrwyr i sefydliadau partner yn Tseina.<br><br>Roedd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru (Xplore!) yn perfformio yn unol â'r gyllideb ond roedd perfformiad Glyndŵr Innovations Ltd (GIL) wedi gwaethygu ychydig. Roedd ailstrwythuro'r gweithrediadau yng nghampws Llanelwy a GIL a'r strwythur ariannol cysylltiedig yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod esboniwyd bod y drwgddyled Londontec yn gysylltiedig â materion rheoli arian cyfred ac roedd datrysiad tymor byr yn ei le. Roedd y sefyllfa'n cael ei monitro ynghyd â'r holl daliadau gan bartneriaid tramor.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.79** | **Paratoi cyllideb 2022/23** | |
| | **Derbyniwyd:**<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad ac amlinellodd y tybiaethau allweddol a'r broses sy'n cael ei chynnal gan y tîm cyllid i ddatblygu cyllideb ddrafft derfynol.<br><br>Roedd yn debygol y byddai'r drafft cyntaf yn gyllideb ddiffyg, ac roedd Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor yn edrych ar ffyrdd i reoli'r diffyg. Cadarnhwyd nad oedd unrhyw gronfeydd wrth gefn wedi'u cynnwys yn y tybiaethau, ond roedd y lefelau arian parod yn parhau'n gadarnhaol.<br><br>Fel rhan o'r papur terfynol ar gyllideb 2022/23 roedd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllideb wedi gofyn am weld effaith y costau refeniw dechreuol yn gysylltiedig â | |

| | | |
|---|---|---|
| | meysydd twf e.e. Addysg a Gwella Iechyd Cymru, ar ragfynegiadau ariannol 2023/24. Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am fodelu sensitifrwyddau ar gyfer tri senario – yr achos gwaethaf, sefyllfa resymol a'r achos gorau.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad.<br><br>CYMERADWYO'R tybiaethau. | |
| **21.80** | **Cynllun Ffioedd a Mynediad** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2023/24 a 2024/25.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr y cynllun Ffioedd a Mynediad a phwysleisiodd y newidiadau bach o'u cymharu â Chynllun 2022/23 a gymeradwywyd gan y Bwrdd Llywodraethwyr ym mis Gorffennaf 2021.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R Cynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2023/24 a 2024/25 i'w llofnodi gan y Cadeirydd a'u cyflwyno i CCAUC. | |
| **21.81** | **Campws 2025** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Diweddariad Campws 2025.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad yn tynnu sylw at y diweddariadau o ran materion cynllunio yn ymwneud â'r Chwarter Gogleddol, Plas Coch a Phentref Myfyrwyr Wrecsam.<br><br>Roedd gwerthu Stadiwm y Cae Ras i'w gwblhau yn ddiweddarach ym mis Mai, gyda'r materion cyfreithiol terfynol yn cael eu datrys ar hyn obryd.<br><br>Bellach roedd achos busnes amlinellol prosiect cyfalaf y Ganolfan Fenter, Peirianneg ac Opteg wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i fwrw ymlaen i ddatblygu'r achos busnes llawn i'w gyflwyno yn 2023.<br><br>Roedd caffael ar gyfer y prosiectau a nodwyd yn dilyn derbyn y cyllid refeniw £1.5m ychwanegol gan CCAUC yn mynd rhagddo, gan fod angen gwario'r arian erbyn 31 Gorffennaf. Bydd y cae hoci wedi'i seilio ar ddŵr yn cael wyneb newydd dros yr haf gan ddefnyddio grant gan Gyngor Chwaraeon Cymru.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI diweddariad Campws 2025. | |
| **21.82** | **Chwarter Arloesi Addysg Iechyd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Achos busnes ar gyfer cyflawni'r Chwarter Arloesi Addysg Iechyd – Datblygiadau campws Prifysgol Glyndŵr/Llanelwy, Cam 1.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr achos busnes yn gofyn am gymeradwyo £1.706m i gyflawni agweddau cyfalaf Cam 1 y prosiect Chwarter Arloesi Addysg Iechyd i baratoi ar gyfer myfyrwyr newydd yn cofrestru ym mis Medi 2022, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Byddai Cam 1 yn cynnwys adnewyddu yr adeilad Techniquest blaenorol a bloc K yn Lôn Crispin i ddarparu mannau dysgu arbenigol a lle ar gyfer arloesi mewn addysg, yn ogystal â chostau dylunio i baratoi ar gyfer cyflawni Cam 2A a 2B yr adeilad newydd. Byddai achos busnes ar gyfer Cam 2 yn cael ei gyflwyno maes o law. Nodwyd y byddai cyllid cyfalaf £750K CCAUC ar gyfer 2022/23 yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith adnewyddu yng Ngham 1.<br><br>Nododd yr aelodau'r trefniadau wrth gefn a oedd yn cael eu hystyried i liniaru unrhyw oedi wrth gael caniatâd cynllunio ar gyfer yr adeilad newydd fel rhan o Gam 2B a fyddai'n cynnwys newid y gwagle cyfredol at ddibenion newydd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERDWYO'R gwariant o £1.706m i gyllido Cam 1 y prosiect Chwarter Arloesi Addysg Iechyd. | |
| **21.83** | **Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd Llywodraethwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cynllun gweithredu drafft i fynd i'r afael â chanfyddiadau Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd Llywodraethwyr 2021/22.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Gadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'r cynllun gweithredu drafft yr oedd y Pwyllgor wedi cael trafodaeth fanwl amdano. Atgoffwyd yr aelodau am yr adroddiad adolygiad cadarnhaol ac mai bwriad yr argymhelliion oedd cyfoethogi'r arferion cyfredol. Tynnwyd sylw at y meysydd allweddol a 'dderbyniwyd' neu a 'dderbyniwyd fel parhad ymarfer barhaus'. Ni chafodd un argymhelliad ynghylch ystyried rhannu'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid ei dderbyn ac amlinellwyd y rhesymau, er y byddai cylch gorchwyl y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn cael ei adolygu.<br><br>Byddai'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn monitro gweithredu'r cynllun gweithredu ar ran y Bwrdd Llywodraethwyr.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO cynllun gweithredu'r Adolygiad Effeithiolrwydd. | |
| **21.84** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Adroddodd y Cadeirydd am ddigwyddiadau y bu'n ymwneud â nhw ers 1 Ebrill. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd unigol â phob un o'r llywodraethwyr, sy'n parhau, taith o amgylch Xplore!, y bwriad i fod yn yr Ŵyl Raddio, aryslwi cyfarfod y Bwrdd Academaidd ym mis Mai, ymweld â champws Llanelwy a chyfarfod â'r Undeb Myfyrwyr, yn cynnwys cynhyrchu neges fideo sy'n canolbwyntio ar y myfyrwyr.<br><br>Hefyd roedd y Cadeirydd yn bresennol yn Sesiwn i Gloi y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion ym mis Ebrill, ar y thema o Ehangu Cyfranogiad, ac roedd rhai meysydd o ddiddordeb yn deillio o'r digwyddiad y byddai'n eu datblygu. Roedd y cyflwyniadau'n pwysleisio'r angen i ganolbwyntio ar lesiant staff a myfyrwyr, paratoi'r myfyrwyr ar gyfer y farchnad swyddi, materion deddfwriaethol a'r gwahanol ffyrdd roedd amrywiol sefydliadau yn cefnogi'r Wcráin.<br><br>Roedd Prifysgolion y Deyrnas Unedig (UUK) a'r Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion wedi mynegi eu dyhead i greu perthynas agosach.<br><br>Rhoddwyd gwahoddiad i Richard Thomas roi adborth ar y digwyddiad Llywodraethu yng Nghymru y bu ynddo yn rhithiol yn ddiweddar. Roedd y digwyddiad wedi cynnwys diweddariadau gan Brifysgolion Cymru ar bolisi Llywodraeth Cymru; gan Advance HE ynghylch Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a gwella amrywiaeth y | |

| | | |
|---|---|---|
| | Bwrdd: ac ynghylch sicrwydd ansawdd academaidd. Cyflwynwyd y diwethaf gan yr Athro Sandra Jowett a dynnodd sylw at waith Panel Safonau ac Ansawdd y Bwrdd. Pwysleiswyd pwysigrwydd paratoi'r myfyrwyr ar gyfer eu rôl fel llywodraethwr hefyd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiadau. | |
| **21.84** | **Adroddiad Risgiau Corfforaethol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Crynodeb y risgiau corfforaethol a Map Gwres Risgiau, Mawrth 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd yr Is-Ganghellor yr adroddiad a chadarnhaodd bod y Pwyllgor Archwilio wedi adolygu'r gofrestr risgiau ddiwygiedig yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth ynghyd â chais y Bwrdd i ystyried cynnwys cyflymder risg yn cael ei drin dros yr haf fel rhan o adolygiad manwl y gofrestr risgiau.<br><br>Awgrymwyd efallai nad oedd gan gydweithwyr academaidd ymdeimlad o ddifrifoldeb rhai o'r risgiau corfforaethol cyfredol a bod angen cyfleu hyn iddynt.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | **Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor** |
| **21.85** | **Cylchlythyrau CCAUC ac eraill** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar gylchlythyrau CCAUC yn ymwneud â deilliannau'r ymgynghoriad ar newidiadau i'r Fframwaith Asesu Ansawdd a chyhoeddi canlyniadau'r Arolwg Cenedaethol o Fyfyrwyr (NSS) 2022.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.86** | **Pwyllgorau'r Bwrdd** | |
| | **21.86.01 Y Pwyllgor Archwilio** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Croesawyd y cyflwyniad am risgiau gan yr Dirprwy Is-Ganghellor a'r Cyfarwyddwr Marchnata a Derbyniadau gan y Pwyllgor.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2022.<br><br>NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 24 Mawrth wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |
| | **21.86.02 Y Pwyllgor Adnoddau Dynol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Bod y gwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n cael ei wneud ar draws y Brifysgol yn arwyddocaol. Roedd y Pwyllgor wedi croesawu a llongyfarch y rhai fu'n rhan o'r cyflawniad bod y brifysgol wedi codi i safle 47 ym Mynegai Gweithle Stonewall.<br><br>**Penderfynwyd:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2022.<br><br>NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 7 Ebrill wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |
| | **21.86.03 Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnwyd sylw at rôl yr Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a byddai gwahoddiad i fynegi diddordeb yn fuan, tra'n cydnabod bod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn parhau'n gyfrifoldeb y Bwrdd cyfan. Roedd cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag amrywiaeth y Bwrdd Llywodraethwyr a chynyddu ffocws y Bwrdd ar faterion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ehangach yn cael ei ddatblygu gan y Clerc i'w ystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2022<br><br>NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 7 Ebrill wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |
| | **21.86.04 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Roedd Cadeirydd y Pwyllgor a Jim Barclay, yn rhinwedd ei swydd fel cyfarwyddwr anweithredol GIL, i gyfarfod â'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a'r Pennaeth Cyllid ar 16 Mai i drafod yr ailstrwythuro arfaethedig yng nghampws Llanelwy a sut roedd hynny'n berthnasol i GIL.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2022.<br><br>NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau cyfarfod 8 Ebrill wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |
| **21.87** | **Gŵyl Raddio** | |
| | Dan yr eitem Unrhyw Fater Arall cyflwynodd yr Is-Ganghellor ddiweddariad i'r aelodau ynghylch yr Ŵyl Raddio deuddydd yn fuan i gydnabod a dathlu graddedigion 2020 a 2021. Roedd y Canghellor yn mynd i fod yn bresennol ar 11 Mai ac wedi cytuno i gyfarfod â'r beirniaid Dinas Diwylliant y diwrnod hwnnw. Disgwylir tua 1600 o ymwelwyr i'r campws ar bob un o'r ddau ddiwrnod. | |

Diwedd